



National
Guidance
oeapng.info

Gweithdrefnau Argyfwng Enghreifftiol i Arweinwyr Ymweliadau

Mae'r gweithdrefnau hyn yn seiliedig ar y canllawiau yn nogfen [4.1c "Argyfyngau a Digwyddiadau Tyngedfennol – Canllawiau i Arweinwyr"](#). Dylech eu haddasu ar gyfer eich sefydliad a'r mathau o ymweliad y mae'n eu trefnu. Wrth wneud hynny, dylech ystyried y newidynnau hyn (y newidynnau 'SAGE'):

- Staff – maint a phrofiad y tîm arwain, cymhareb cyfranogwyr/staff;
- Gweithgareddau – yr hyn rydych chi'n cynllunio'i wneud;
- Grŵp – nifer o gyfranogwyr a'u hoedran, ymddygiad, anghenion, galluedd etc.;
- Amgylchedd – pa mor bell oddi wrth gymorth ac oddi wrth y sefydliad, tywydd posibl, natur y safle/lleoliad/tir.

Efallai y bydd yn ddefnyddiol ichi gael gweithdrefnau safonol wedi eu haddasu ar gyfer y gwahanol fathau o ymweliad y mae'r sefydliad yn eu trefnu (ee ymweliadau lleol, ymweliadau diwrnod i leoedd pellach i ffwrdd, gweithgareddau mewn cefn gwlad gwyllt, cyrsiau preswyl, ymweliadau tramor).

Dylai fod copi o'r gweithdrefnau fod ar gael yn rhwydd i bob aelod o'r tîm arwain drwy gydol ymweliad (ee ar gardiau wedi eu lamineiddio) a dylent fod yn gallu gweithredu os oes problem. Os yw ymweliad yn cynnwys goruchwyllo o bell, dylai cyfranogwyr gael fersiwn addas o'r gweithdrefnau a dylent fod yn gallu eu defnyddio.

Gweithdrefnau Argyfwng

Mae trefn y camau gweithredu yn dibynnu ar natur yr argyfwng.

Camau i'w cymryd ar unwaith

1. Sicrhau eich diogelwch eich hun.
2. PEIDIO Â CHYNHYRFU – Asesu'r sefyllfa.
3. Os yn bosibl, dirprwyo gweithredoedd i arweinwyr eraill a chyfranogwyr fel y gallwch gadw golwg gyffredinol, ac fel bod mwy nag un cam gweithredu'n gallu digwydd yr un pryd.
4. Sicrhau diogelwch y grŵp. Sicrhau eich bod yn gwybod lle mae pawb a'u bod yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol.
5. Galw'r gwasanaethau argyfwng perthnasol os oes angen (gweler rhifau ffôn isod).
6. Cyflawni cymorth cyntaf hyd eithaf eich gallu.

Cymorth Cyntaf

Amcanion cymorth cyntaf yw

1. Diogelu bywyd:
 - a. Mae angen i ddiodefwyr allu anadlu – os ydynt yn anymwybodol rhwch nhw mewn safle llwybr anadlu diogel.
 - b. Ceisiwch ddarganfod a rhwystro unrhyw waedu allanol difrifol.
2. Rhwystro'r cyflwr rhag gwaethygu:
 - a. Amddiffyn y diodefwyr rhag yr amgylchedd – eu cadw'n gynnes a sych.
 - b. Monitro eu cyflwr.
3. Hyrwyddo adferiad:
 - a. Siarad gyda nhw, tawelu eu meddwl, dal eu llaw, rhoi cymorth emosiynol.

Camau Gweithredu Brys

Ystyriwch a chynlluniwch, gan ddirprwyo lle bo'n bosibl.

Ffoniwch Gyswllt Argyfwng eich sefydliad (neu os nad yw ar gael, Cyswllt Argyfwng eich cyflogwr) os yw unrhyw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol (gweler rhifau ffôn isod):

- Mae arnoch angen cymorth;
- Mae'r gwasanaethau brys wedi eu galw;
- Mae'r digwyddiad yn un difrifol;
- Mae'r wasg/cyfyngau yn bresennol.

Gallai fod arnynt angen yr wybodaeth ganlynol:

- Pwy ydych chi, o ba sefydliad rydych chi a beth yw eich rôl o fewn y grŵp;
- Y rhif y gellir eich ffonio chi'n ôl;
- Natur yr argyfwng a manylion y digwyddiad;
- Pa help sydd arnoch ei angen;
- A yw'r gwasanaethau brys yn chwarae rhan;
- Faint o ddiodefwyr sydd, a'u statws;
- Nifer o bobl yn eich parti;
- Eich lleoliad, ac a ydych chi'n bwriadu symud.

Cyd-gysylltu â'r gwasanaethau brys os ydynt yn cymryd rhan, a chymryd cyngor ganddynt.

Rhoi sylw i anghenion brys y grŵp:

- Sicrhau goruchwyliaeth ddigonol;
- Sicrhau eu bod yn deal beth i'w wneud i aros yn ddiogel;
- Anghenion ffisegol, ee cysgod, bwyd a diod, trafndiaeth;
- Anghenion emosiynol, ee mynd â nhw o safle'r digwyddiad, tawelu eu meddwl a chymorth emosiynol (yn aml, gallant wneud hyn i'w gilydd), rhoi pethau defnyddiol iddynt eu gwneud, eu hamddiffyn rhag amhariad.

Rheoli cyfathrebu – rhwystro aelodau'r grŵp rhag defnyddio ffonau neu gyfyngau cymdeithasol heb oruchwyliaeth, neu hyd nes y rhoddir cymeradwyaeth.

Cychwyn cofnod ysgrifenedig o'r camau a gymerwyd, a'r sgysiau a gafwyd, gydag amserau.

Camau Pellach a Dilynol

Ystyriwch eto ac ail-gynlluniwch y cam nesaf – beth ydych chi wedi'i anghofio?

Ymdrin ag unrhyw ddiodefwr sydd yng ngofal y gwasanaeth argyfwng:

- Mynd gyda nhw i'r ysbyty;
- Gwybod pwy sydd yn lle.

Ystyriwch eich anghenion eich hun ac anghenion cyd-arweinwyr – ydych chi / ydyn nhw yn dygymod?

Cyd-gysylltu â'ch sefydliad neu gyflogwr – trosglwyddo'r hyn a allwch iddyn nhw, er mwyn lleihau'r straen arnoch chi.

Parhau â'r cofnod ysgrifenedig gyda holl fanylion y digwyddiad a'r camau a gymerwyd, gan gynnwys enwau a manylion cyswllt unrhyw dystion.

Ymdrin ag anghenion pellach y grŵp, er enghraifft:

- Toiledau, cyfleusterau ymolchi, dillad glân/sych;
- Trafnidiaeth;
- Llety;
- Cyswllt â'r cartref.

Cyfeirio pob ymholiad, gan y cyfryngau, rhieni neu eraill, at eich sefydliad neu gyflogwr.

Cysylltu ag asiantaethau perthnasol fel bo'r angen (trwy eich sefydliad/cyflogwr os yn bosibl), er enghraifft:

- Trefnydd teithau/cwmni teithio/darparwr gweithgaredd/darparwr llety;
- Cymorth argyfwng yswiriant teithio;
- Gwasanaethau cymdeithasol;
- Tîm Cymorth Llysgenhadol (os ydych chi dramor).

Gweler rhifau isod.

Rhifau mewn Argyfwng

Arweinydd yr Ymweliad	
Arweinydd Cynorthwyol	
Cyswllt Argyfwng y Sefydliad	
Sefydliad – rhifau eraill	
Cyswllt Argyfwng y Cyflogwr	
Cyflogwr – rhifau eraill	
Gwasanaethau Argyfwng yn y Deyrnas Unedig	999 neu 112 <i>Gallwch tecstio 999 os ydych chi eisoes wedi cofrestru i wneud hyn</i>
Gwasanaethau Argyfwng mewn gwledydd yr ymwelir â nhw <i>(mewn rhai gwledydd mae gwahanol rifau ar gyfer gwahanol wasanaethau argyfwng)</i>	
Cymorth Llysgenhadol y Swyddfa Dramor	+44 20 7008 1500
Cymorth Argyfwng Yswiriant Teithio	
Rhifau defnyddiol eraill	

